# CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

## COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 17eg CHWEFROR 2026.

## NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. Mrs L Roberts (Cadeiryddes) Cyng. R G Parry (Is-Gadeirydd) Cyng. J Evans, Mrs B Jones W R Parry, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

Aelodau o`r Cyhoedd. Mrs Cenin Thomas a Aled Thomas.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. Ms N Dafydd.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng. Mrs L Roberts (Rhif 14.) R R Roberts (Neuadd Goffa)

CAEL COFNODION 20ed IONAWR 2026 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. R G Parry eilo Cyng. R R Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Parcio ym Modffordd.
Gobeithio cael cyfarfod buan gyda Swyddog o`r Cyngor Sir ar y safle.

Neuadd Goffa Bodwrog.
Cafwyd trafodiad ynghylch a rhoi rhodd i`r Neuadd tuag at adgyweirio y tô.
Roedd y Neuadd wedi cael trafodaeth gyda aelodau o`r pwyllgor, ai bwriad oedd i beidio a dosrannu Mantolen Ariannol Cyfoes ond bydd un o`r Ymddiriedolwyr yn barod i alw·i mewn i gyfarfod y Cyngor i ateb unrhyw gwestiwn. Ni roddwyd gwadd gan y Cyngor.
Ar ol petruso pasiwyd trwy gynnig Cyng. R G Parry, eilio Cyng. D T Roberts i rhoi taliad o £2,000, ar yr ymrwymiad fod Mantolen Ariannol Gyfoes wedi ei derbyn gan y Cyngor ymlaen llaw, (saith diwrnod heb gynnwys penwythnos) cyn cyfarfod mis Mawrth. Er mwyn i`r Cynghorwyr gael amser i`w threulio.

Yn Cofnodion Rhagfyr 2025 dywedwyd na Busnes oedd y Neuadd Goffa, Elusen dylai fod.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. VAR/2026/3. Cais o adran73 i ddileu amod (09) (Deiladaeth Amaethyddol) o ganiatad cynllunio cyfeirnod 14C55 (Codi annedd amaethyddol) yn:-
Glan Rhos, Tynlon.
Y Cyngor yn cefnogi i`w dynnu.
Cynnig Cyng. R G Parry, eilio Cyng. D T Roberts.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Cyfreithiwr Tim Eiddo a Priffyrdd - Siwan Jones.
Cafwyd gorchymyn gan y Cyngor Sir fod traffig i`w wahardd dros dro (Lon Coedana 2026)

Yr angen oedd newid polyn ar ymyl y ffordd 17ain Chwefror 2026.
Y Cyngor yn derbyn heb ddim sylw pellach.

4. Cyfreithiwr Tim Eiddo a Priffyrdd - Siwan Jones.
Derbyniwyd gorchymyn o digwyddiadau arbennig. Hanner Marathon Ynys Môn a 10k 2026.
Yn gwahardd unrhyw berson rhag achosi unrhyw gerbyd ac eithrio cerbydau brys i fynd i unrhyw gyfeiriad ar hyd:-
A5 o`r gyffordd gyda Minffordd i`r A5 at Treban, Trefor, Caergybi.
B5112 o`r groesfordd gyda B5109 yn Nhrefor i`r A5 Yn Nhreban, Trefor, Caergybi.
B5109 o Trefor i Bodffordd.
Minffordd (USRN o Bodffordd i gyffordd yr A5.
Cyffordd Lôn Bodwina gyda`r A5 i`r gyffordd gyda`r B5109.
Rhwng 7.30yba 100yr ar y 1af Mawrth 2026.
Nid oes ffyrdd amgen penodol - cau ffyrdd yn ddynamig am gyfnodau byr.
Y Cyngor yn derbyn y gorchymyn nid oedd ddim sylwadau penodol.

5. Swyddog Cefnogi Polisi a`r Gymraeg - Mared Thomas.
Adolygiad Cymunedol o Drefniadau Etholiadol. Pleidleisio ac Etholiadau.
Ymgynghoriad cychwynol yn dechrau yn syth ac yn cau 13eg Mawrth 2026.
Gofyn yn garedig am ymatebion:-
GwasanaethauDemocrataidd@ynysmon.llyw.cymru
Derbyn y wybodaeth nid oedd unrhyw sylw gan y Cyngor ar y noson.

6. Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid - Nikki Jones.
Gronfa Amgylcheddol a Gwella Cymunedau 1af - 28ain Chwefror 2026.
Arian yn caniatau i denantiaid a phreswylwyr wneu cais am grant o hyd £5,000 ar gyfer prosiectau amgylcheddol i wneu stadau y Cyngor yn lleoedd mwy diogel, taclusach a brafiach i fyw.
2 categori newydd eleni:-
1. Arian blynyddol o hyd at £500 (Ar gael drwy`r flwyddyn)
2. Arian o hyd at £5,000 bob dwy flynedd.
01248 752200 neu tenants@ynysmon.llyw.cymru.
Derbyniwyd gan y Cyngor heb unrhyw sylw.

7. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Holiadu`r Iaith Gymraeg.
Gofyn am ein cefnogaeth i ddeall yn well sut mae`r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn meddygfeydd a chanolfannau meddygol.
chd Y GYMRAEG - HOLIADU`R DEFNYDDIWR GWASNAETH / WELSH LANGUAGE - SERVICE USER QUESTIONNAIRE
Derbyn y wybodaeth dim crybwylliad gan y Cynghgorwyr. Yn gweithredu mwy ac unigoliaeth.

8. Arolygydd Gwaith Stryd a Gorfodi - J Bryn Williams.
MN 767360559. Tynlon.
Cadarnhad fod y Trelar (Wartheg neu Geffylau) wedi cael ei symud yn awr.
Wedi ei ffarcio ar y lon ger Bryn Tancwy Tynlon, yn ei gwneud yn anodd i`r Traffig ei phasio yn enwedig lorriau a tractors. Daeth llawr o gwyn i`r Cyngor.
Y Cyngor yn derbyn y canlyniad.

9. Swyddog Gofal Cwsmer - Elizabeth M Jones.
CRM. MN794360817.
Cyflymder drwy Bodffordd. Wedi cael ei basio i`r Priffyrdd.
Baw Cwn y Bodffordd (O gwmpas yr ysgol) Y Warden wedi bod ar y safle.
Adran Tai. Sgwapio yn y Pentref. Menyw yn cael ei dilyn gan wr pan oedd yn cerdded y ci. Erbyn hyn mae y mater wedi ei dod i ben, mae`r gwr wedi cael ei yrru i ffwrdd. (Preswylfa)
Codwydd yr uchod gan y Gadeiryddes a`r Clerc yn cyflawni gyda`r Cyngor Sir.

GOHEBIAETH (ARALL)

10. Derbyniwyd e-bost gan Mr G B Eastwood, Chauntry House, Bodffordd.
Yn tynnu sylw y Cyngor i`r cyflymder gormodol o fewn y 20mya trwy pentref. Yn 2025 i`w wybodaeth ef, dau gerbyd mewn damwain cyflymder gormodol. (Ysiwrant ysgrifennu i ffwrdd) Beiciwr angen triniaeth Ysbyty. Bu yr Heddlu yn bresennol i`r tri. Nifer o ddigwyddiadau llai gyda difrod bychan i gerbydau. Mae y B5109 drwy`r pentref yn cael ei ddewis fel llwybr i Gerbydau Nwyddau Trwm sydd ddim yn gwneud dosbarthiad lleol, ond yn fwy a fwy cyffredin pan yn pasio trwy`r pentref, ymhell dros y cyflymder cyfreithlon.
Gofyn i`r Heddlu Gogledd Cymru i fonitro y sefyllfa a cymryd mesur addas i ddiogelu y cyflymder terfyn i ymlynu.
Trafodwyd yr uchod, y Clerc wedi anfon copi i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn syth ac wedi cydnabod ei dderbyn gan Mr Eastwood.
Trwy gynnig Cyng. R G Parry pasiwyd i anfon copi i`r Heddlu i edrych am ei ymateb.

11. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Diwrnod Myfyrdod Cenedlaethol Covid -19 2026.
Cydnabod Rôl Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.
A ydyw y Cyngor yn barod i gymryd rhan?
Derbyn ai gadw mewn golwg.

12. Un Llais Cymru - Wendi Patience.
Atgoffa Dyddiadau Hyfforddiant. Ionawr, Chwefror a Mawrth 2026.
Pwy sydd yn barod o`r Cynghorwyr i gyfranogi.
Derbyn a gadael, anodd cael neb i fynd. Mae y Cyngor yn annog y Cynghorwyr i fynychu.

RHODDION.

13. Marie Curie Cymru - Apel Cenin Pedr Mawr 2026.
Gadael y tro yma, dim mantolen. Meddwl tro nesaf.

14. Ysgol Gymuned Bodffordd. (Llywodraethwyr)
Cadeirydd Einion Williams.
Gofyn am gyfraniad ariannol tuag at gostau blynyddol eitemau i`r Diffibrilydd sydd ar Ganolfan yr ysgol. (Anaphalaxis Kit £780. Alergedd. ) (Defibrillator Store £114 Sioc trawiad y galon)
Roedd y cyngor yn gweld y gost yn aruthrol i gymharu a rhai mewn mannau eraill.
Trwy gynnig Cyng. W R Parry, eilio Cyng. R G Parry pasiwyd i anfon siec am £500 fel cyfraniad un amser tuag at y gost.

15. MônFM.
Gofyn am Fantolen Ariannol cyn ystyried cyfrannu.

PLWYFOL.

16. Gweler Rhif 14. Diffibrilydd.
Oherwydd fod y Cyngor wedi cyfrannu tuag at Ysgol Gymuned Bodffordd.
Dim ond iawn fuasai i`r Cyngor helpu Neuadd Goffa Bodwrog pan ddaw amser am gynhaliaeth.
Y Neuadd i gysylltu pan ddaw yr amser. Unfrydol.

17. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.
Derbyniwyd adroddiad a oedd yn gystylliedig a wardiau Cyngor Bodffordd. Yr oedd Cynghorydd yn absennol. Roedd wedi tapio ei neges ar y ffon, trwy ei thad. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad.

MATERION ARIANNOL.

18. Cyfrif Rhedegol. £27,569.71. (Agor Bedd W V Thomas £400.00 (Ail agor Bedd. R L Hughes £300.00)

Arian Mynwent Gymunedol Bodffordd £10,710.00 rhan o`r uchod)

TALIADAU:

19. Clerc £500.55. Ysgol Gymunedol Bodffordd (Diffibrilyd) £500.00

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. J Evans.

**D Owen** (Clerc)

YCHWANEGIAD.

Pwysigrwydd Cyfarfod ar y Safle 26ain Chwefror 2026.
Parcio Bodffordd.

Presennol.
Cyng. R G Parry (Is-Gadeirydd) Cyng. J E Lewis, Mr Alun Roberts Swyddog Adran Priffyrdd Cyngor Môn ar Clerc.
Cafwyd presenoldeb llwm iawn. Gwarthus a bod y onest.
Roedd yr rhai a oedd yn bresennol yn siomedig iawn (a gofynwyd i gofnodi) nad oedd cynrychiolaeth gan y Cynghorydd Sirol, sydd yn aelod o Gyngor Bodffordd (methu dod wsnos yma yn anodd) Ond efallai y buasai wedi ymdrechu i drefnu gyda y ddau Gynghorydd Sirol arall i ddod (3 Cynghorydd Canolbarth Môn sydd yn cynrychioli Bodffordd)
Cerddwyd drwy y pentref (Diwrnod gwlyb a gwyntog) O`r A5 i`r Sgwar - O waelod Bodffordd, Groeslon Llangwyllog i fynnu am Ty Twyrch. Yr oedd yn gyfarfod cadarnhaol.
Lle rhoddwyd awgrymiadau o beth fuasai yn helpu i ddylifo y tramwy (llinnellau melyn dwbwl)
Bydd y Cyngor Sir yn tynnu Cynllun o`r trafodaethau a`i anfon i`r Cyngor Cymdeithas i`w gydweddu ai grynhoi, ai basio yn ôl i`r Cyngor Sir. Gyda`r posibilrwydd o doddiant i`r parcio - a gwell dylif o`r traffig trwy Bodffordd. Dywedodd y Swyddog mae yn bosib wrth symud y parcio bydd mwy o gyflymder.
Diolchwyd i Mr Roberts am ei agwedd positif.

Hefyd cododd Cyng. J E Lewis fod angen sylw i dyllau wrth Bont Llangwyllog a lon Efail Newydd, Llynfaes am Llannerch-y-medd. Derbyniwyd cadarnhad o hyn gan y Cyngor Sir.